# Meddyginiaethau sy'n seiliedig ar ganabis

11 Rhagfyr 2019

Credir bod rhai cynhyrchion sy'n seiliedig ar ganabis yn helpu gyda phroblemau meddygol penodol sy'n anodd eu trin, ond nid yw'n glir pa mor dda y maent yn gweithio na pha mor ddiogel ydynt i'w defnyddio. Rydym wedi edrych ar y dystiolaeth ar gyfer defnyddio meddyginiaethau sy'n seiliedig ar ganabis pan nad yw triniaethau eraill wedi helpu pobl gyda phoen cronig, epilepsi difrifol ac anystwythder yn y cyhyrau (sbastigedd) a achosir gan sglerosis ymledol (MS). Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda y maent yn gweithio ar gyfer cyflog a chwydu a achosir gan gemotherapi.

Ni fu'n bosibl i ni argymell meddyginiaethau sy'n seiliedig ar ganabis ym mhob achos. Ar gyfer rhai cyflyrau mae angen i ni gael rhagor o dystiolaeth am eu manteision a pha mor ddiogel ydynt. Gellir cynnig treial o chwistrell geg sy'n seiliedig ar ganabis i oedolion ag MS er mwyn helpu gyda sbastigedd, a gall meddyginiaeth a elwir yn nabilone fod yn opsiwn gyda chyffuriau gwrth-salwch eraill yn ystod cemotherapi. Ond ni allwn argymell unrhyw feddyginiaethau sy'n seiliedig ar ganabis ar gyfer poen nac ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o epilepsi.

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil, yn enwedig er mwyn deall unrhyw fanteision a risgiau sy'n gysylltiedig â'r meddyginiaethau hyn ar gyfer plant a phobl ifanc.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Bydd angen i feddyg arbenigol ragnodi meddyginiaethau sy'n seiliedig ar ganabis i ddechrau. Dylai roi gwybodaeth glir i chi am fanteision y feddyginiaeth a'r niwed y gall ei achosi ac unrhyw risg o ddibyniaeth ac egluro sut y gallai effeithio arnoch. Dylai wrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Os ydych eisoes yn cymryd cynnyrch canabis nad yw wedi'i argymell, gallwch chi a'ch meddyg weithio allan gyda'ch gilydd yr adeg orau i roi'r gorau iddo.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- United Patients Alliance
- Gweithredu dros Epilepsi, 0808 800 5050
- Cymdeithas Epilepsi, 01494 601 400
- Epilepsi Ifanc, 01342 831 342
- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0808 800 8000
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 0800 323839
- MS-UK, 0800 783 0518

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae cyflyrau yr ymdrinnir â nhw gan y canllaw wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3579-6



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.